Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Pistyll.

Nos Lun, 8 Ebrill 2025 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.

Presennol: Griffith Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Olwen Roberts, Sianelen Pleming, William Jones, Gethin Jones (cadeirydd).

| | |
|---|---|
| **1.** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan GJ a chytunodd SP i gymryd cofnodion. |
| **2.** | Ymddiheuriadau: Emlyn Williams, Osian Williams |
| **3.** | Datgan Diddordeb: neb |
| **4.** | Cyflwynwyd a mabwysiadwyd cofnodion 11 Mawrth. OR cynnig, GJ yn eilio. |
| **5.** | **<u>Materion yn codi</u>**<br><br>a) 'Deed of Easement' (SP)<br>'Deed of Easement' wedi dod yn ôl. EY yn derbyn y ddau bwynt cyntaf ond yn dal angen cadw y trydydd pwynt – " not to do anything or allow anything to be don eon the Grantor's Land (sef tir y cyngor) that interferes with or obstructs the excercise of the Rights of the Grantee".<br>• **Penderfynwyd peidio rhoi y cymal i mewn. (OW yn cynnig, OR yn eilio).**<br>b) Llecynnau angen eu harddu (SP)<br>Y cabinet ffeilio wedi cyrraedd. Nodwyd bod y capel yn awyddus i symud y gofgolofn o libart y capel.<br>• **Penderfynwyd ei roi yn eitem yn y cyfarfod nesaf.**<br>c) Bin baw Cŵn (JG)<br>Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am ariannu y bin.<br>• **Ddim ar agenda y cyfarfod nesaf.**<br>d) Cofrestru PAYE (GJ)<br>Eitem i'w drafod pan fydd clerc newydd wedi ei benodi. Trafodwyd llythyr gan HMRC ynglŷn â chyflogi'r clerc..<br>• **Penderfynwyd gofalu bod y system yn ei lle ar gyfer y clerc newydd. GJ i holi y cyfrifydd ynglŷn â beth sydd angen ei wneud.**<br>e) Prydles y Ganolfan<br>Eiddo wedi cadarnhau bod y brydles yn ei lle am £1 y flwyddyn. Y brydles wedi ei harwyddo a'i hanfon ymlaen. Ddim yn siŵr ydi Gillian wedi cael cadarnhad bod y brydles yn ei lle.<br>• **JG i holi am gopi o'r brydles derfynol wedi ei harwyddo.**<br>f) Sharepoint (GJ)<br>GJ wedi edrych ar y drefn i gael sharepoint. Costio tua £250 y flwyddyn. GJ yn awgrymu gofyn i HSBC am gerdyn banc i osod y cyfrif. Ei roi dros dro yn enw GJ. Cyngor yn ad-dalu GJ. Nodwyd bod ffeiliau Gillian wedi eu hadfer bellach ac mae bob dim i fyny i 2025 wei dod yn cynnwys cyflnod Eurwyn Williams fel clerc.<br>• **Penderfynwyd y byddai GJ yn gosod y 'sharepoint' a'r cyngor yn ad-dalu.** |
| **6.** | **Penodi Clerc Cyngor Cymuned Pistyll : adroddiad y Cadeirydd.** (GJ)<br><br>Nododd y cadeirydd bod angen yr hysbyseb allan yr wythnos nesaf. |

| | |
|---|---|
| | GJ wedi darganfod beth oedd cyflog Gillian a'r pethau oedd yn cael ei hawlio ganddi gan y cyngor. Roedd hi yn hawlio 34 awr y mis. Cafwyd trafodaeth helaeth ar ddefnydd moduro, ffôn, stampiau, cyfrifiadur a gosod meddalwedd arno i'w neilltu i waith y cyngor, Microsoft 365, ffotocopïo. Ni fydd angen i'r clerc gymryd cyfrifoldeb y wefan. Trafodwyd gofyn am 'timesheet' misol a lle i roi hawliadau ychwanegol arno a rhoi cyfnod prawf o 6 mis.<br><br>• **Penderfynwyd ar Oriau Clerc o 20 awr yr wythnos (Cynnig: SP eilio OR)**<br>• **Penderfynwyd ar radd cyflog clerc o £15 yr awr. (Cynnig: LF eilio WJ)**<br>• **Penderfynwyd bod y clerc yn gael hawlio moduro, stampiau, ffotocopïo, cyfrifiadur. (OR yn cynnig LF yn eilio)**<br>• **Penderfynwyd rhoi'r hysbyseb ar wefan y Cyngor, Llanw Llŷn, Ffynnon, Facebook, y Fic a'r siop.** |
| **7.** | **Archwiliad Allanol** (GJ)<br><br>GJ wedi cyfarfod efo'r cyngor. Angen cofnodion a rheini wedi eu hanfon – gobeithio bod y rhain i gyd yn ddigonol ar gyfer eleni. |
| **8.** | **Gwefan ccpistyll.cymru –**<br><br>Y wefan yn barod ond angen llenwi bylchau. Wedi ei rannu efo'r aelodau. GJ wedi methu hyd yma i dynnu yr hen wefan – y cyfrinair wedi dod i ben a'r neges yn e-bost Gillian. GJ wedi siarad efo'r cwmni i newid y cyfrif er mwyn dileu yr hen wefan.<br><br>Nodwyd ei bod yn haws anghofio yr hen gyfrif e-bost hefyd a chychwyn un newydd. |
| **9.** | **Ceisiadau Cynllunio**<br><br>Cais London House : wedi ei ganiatau. |
| **10.** | **Gohebiaeth :**<br><br>JG heb glywed dim gan Mabon ap Gwynfor am Lôn Rhosydd. |
| **11.** | **Hyfforddiant Unllais Cymru**<br><br>Nododd JG bod Unllais yn cynnig dyddiadau ac y dylid gwneud cyrsiau, yn enwedig yn y cyfnod yma. Y dyddiadau wedi eu hanfon ymlaen. GJ a LF yn fodlon gwneud cwrs. |
| **12.** | **Cyllidol**<br><br>OR erbyn hyn wedi newid cyfeiriad y banc ac mae £2770 yn y cyfrif cadw a £15 000 yn y cyfrif cyfredol.<br><br>Nodwyd bod y Ganolfan ddim yn gwneud cais am arian eleni gan bod y cyngor wedi cefnogi maes parcio. Bydd tri pris ar gyfer y parcio yn dod i law y mis nesaf.<br><br>**Ceisiadau Grant**<br><br>• **Penderfynwyd rhoi arian fel a ganlyn:**<br>**Adran yr Urdd £250**<br>**Uwch Adran yr Urdd £250** |

| | |
|---|---|
| | **Gŵyl Ifan £700 (cynnig: GJ eilio: LF)**<br>**Hafod Ceiri £800 (cynnig: OR eilio: GJ)**<br>**Clwb Snwcer £800 (cynnig: LF eilio: WJ)**<br>**Cyfeillion Carnguwch £400**<br>**Cae Chwarae £500 (cynnig: GJ eilio: LF)**<br>**Cylch Meithrin Pentreuchaf £200 (cynnig: WJ eilio: GJ)**<br><br>**Diweddaru Asedau**<br><br>Y llythyr wedi ei anfon 'signed for' i Dŷ'r Ysgol ond dim gwagio wedi bod.<br><br>Angen mainc newydd yn y groes.<br><br>• **Cytunwyd i GJ dynnu yr hen fainc oddi yno gan ei bod yn beryglus.** |
| 13. | **Unrhyw Fater Arall /materion lleol**<br><br>Nodwyd y byddai'n well peidio codi gormod o faterion lleol, dim ond rhai brys, nes bydd clerc mewn lle i weithredu arnynt. |
| 14. | **Cyfarfod nesaf :**<br>Mai 13, 2025 am 7pm yn y Ganolfan Llithfaen.<br>Trafodwyd symud y cyfarfod blynyddol ymlaen er mwyn rhoi amser i benodi clerc. Sp yn fodlon trefnu cyfarfod blynyddol ym mis Gorffennaf os na fydd clerc yn ei le.<br>• **Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Blynyddol 8 Gorffennaf 7 o'r gloch. (Cynnig: SP eilio: OR)** |